



Chartered
Institute of
Housing
Cymru

Beth mae angen i chi ei wybod am gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26

Rhagfyr 2024



Beth mae angen i chi ei wybod am gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26



**Chartered
Institute of
Housing**
Cymru

Cefndir

Ar 10 Rhagfyr 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chyllideb [ddrafft ar gyfer 2025-2026: Cyllideb i adeiladu Dyfodol mwy Disglair](#). Gyda £1.5 biliwn ychwanegol ar gael i lywodraeth Cymru ar gyfer 2025/26, croesawodd yr ysgrifennydd cyllid y lefel ychwanegol o fuddsoddiad. Mae llywodraeth Cymru'n gobeithio y bydd y cyllid ychwanegol yn creu'r amodau ar gyfer twf a buddsoddi yng Nghymru. Mae'r gyllideb ddrafft yn darparu cyfanswm o £22.3 biliwn mewn cyllid refeniw a £25.8 biliwn mewn cyllid cyfalaf.

Ymrwymiad parhaus i dai

Mae'r gyllideb ddrafft wedi darparu £81 miliwn ychwanegol mewn cyllid cyfalaf drwy'r grant tai cymdeithasol (SHG) a'r Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol (TACP). Cynnydd i'w groesawu mewn lefelau buddsoddiad cyfalaf i ddatblygu cartrefi am rent cymdeithasol.

Mae yna hefyd ychydig cynnydd bach yn y cyllid sydd ar gael i sicrhau bod ein cartrefi presennol yn cyrraedd y safonau perthnasol. Bu cynnydd o £3 miliwn ar gyfer datgarboneiddio preswyl gan ddod â chyfanswm yr arian sydd ar gael i £95 miliwn. Mae yna hefyd £108 miliwn ar gyfer y lwfans atgyweiriadau mawr a chyllid bwllch gwaddol. Dyrannwyd £37.5 miliwn i'r Rhaglen Cartrefi Clyd, i helpu perchnogion tai ar incwm isel i wella effeithlonrwydd ynni eu cartrefi.

Mae Llywodraeth Cymru'n parhau â'i hymrwymiad i ddiogelwch adeiladau ac yn darparu £127.6 miliwn i wella diogelwch adeiladau ar draws Cymru.

Mae Cynllun Lesio Cymru, sy'n helpu gwella mynediad at rentu yn y sector preifat, wedi cael hwb ariannol o £2 miliwn, gan ddod â chyfanswm y cyllid i £3.5 miliwn. Bydd y cyllid hwn yn helpu darparu grantiau i helpu mwy o eiddo i ymuno â'r cynllun yn 2025/26.

Mae cyllid ychwanegol hefyd ar gyfer y Rhaglen Addasiadau Brys. Mae £5 miliwn ychwanegol yn cael ei ddarparu, gan sicrhau bod £25 miliwn ar gael i ariannu mân addasiadau, megis canllawiau, i alluogi pobl i ddychwelyd adref ar ôl bod yn yr ysbyty.

Mae cynnydd hefyd yn y lefelau cyllid ar gyfer Cymorth i Brynu yng Nghymru gyda chyfanswm o £82 miliwn ar gael i helpu prynwyr tro cyntaf i gael mynediad i berchentaeth.

Grant cymorth tai

Mae'r llinell gyllideb gyffredinol ar gyfer cefnogaeth ac atal digartrefedd wedi gostwng £320,000. Er hynny rydym wedi cael ein sicrhau y bydd y grant cymorth tai yn cynyddu £21 miliwn. Mae'r gostyngiad yn y llinell gyllideb oherwydd i £21.32 miliwn o gyllid gael ei drosglwyddo i'r grant cynnal refeniw (RSG) ar gyfer awdurdodau lleol. Nid yw'r trosglwyddiad i'r Grant Cynnal Refeniw wedi'i neilltuo ond mae'n ymwneud (ac eithrio cydlynwyr strategol) â chyflwyno swyddogaethau statudol.

Cyllid awdurdodau lleol

Mae rhywfaint o newyddion da i awdurdodau lleol. Mae cyllid refeniw cyffredinol llywodraeth leol yn gweld cynnydd o £278.3 miliwn. Y gobaith yw y bydd yr arian ychwanegol hwn yn helpu i leddfu rhywfaint ar y pwysau ariannol a welir gan wasanaethau digartrefedd statudol awdurdodau lleol. Gallai'r arian hefyd roi rhywfaint o gymorth ariannol i'r awdurdodau lleol hynny yr effeithir arnynt fwyaf gan Storm Bert a Storm Darragh.

Ymrwymadau cyllidebol eraill

Dyma rai o'r ymrwymadau cyllidebol eraill:

- £3.7 miliwn i fynd i'r afael ag oedi yn y system gynllunio, cyflymu penderfyniadau cynllunio a chefnogi'r rhaglen trawsnewid digidol
- £1.5 miliwn ar gyfer y prosiect incwm sylfaenol
- £40.1 miliwn ar gyfer cynhwysiad ariannol
- £9.2 miliwn ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol
- £6.4 miliwn ar gyfer tlodi tanwydd.

Barn CIH Cymru

Rydym yn croesawu'r cyllid ychwanegol sydd wedi'i ddyrannu i helpu darparu mwy o gartrefi rhent cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r ymrwymiad parhaus hwn i ddatblygu tai'n allweddol i fynd i'r afael ag argyfwng tai parhaus Cymru. Ac eto, er gwaetha'r buddsoddiad cynyddol sydd i'w groesawu, mae'n brin o'r £580 i £740 miliwn ychwanegol y nododd [adroddiad diweddar gan Archwilio Cymru](#) y byddai ei angen i gyrraedd y targed o 20,000 o gartrefi rhent cymdeithasol carbon isel erbyn 2026. Adleisir hyn yn ein [Cipolwg ar y sector 2024](#) a nododd nad oedd 71 y cant o ymatebwyr yn hyderus neu'n sicr y byddai'r targed yn cael ei gyrraedd gyda 67 y cant yn nodi nad oes digon o gyllid ar gael i ddatblygu cartrefi newydd. Er bod y cyllid ychwanegol i'w groesawu, rydym yn pryderu nad yw ar lefel a all sicrhau datblygu ar y cyflymder a'r raddfa sydd eu hangen i gyrraedd y targed o 20,000 o gartrefi rhent cymdeithasol carbon isel.

Mae darparwyr tai yng Nghymru'n rhannu uchelgeisiau llywodraeth Cymru i gynyddu ein stoc tai a sicrhau bod ein cartrefi presennol yn gynaliadwy ac o ansawdd da. Ac eto nid yw'r gyllideb yn darparu cynnydd sylweddol i'r cyllid a ddyrennir i ddatgarboneiddio ein cartrefi cymdeithasol presennol. Mae darparwyr tai yng Nghymru o dan bwysau ariannol cynyddol i ddatgarboneiddio cartrefi presennol, gweithredu SATC 2023 a datblygu'r cartrefi sydd eu hangen arnom. Amlygwyd hyn yn ein [cipolwg ar y sector 2024](#):

"Y lefelau uchaf erioed o fuddsoddiad, ond mae heriau o hyd o ran argaeledd tir, oedi o ran cynllunio a chostau cynyddol deunyddiau. Bydd pwysau eraill ar y sector megis SATC 2023 hefyd yn arwain at bwysau ariannol cynyddol ar landlordiaid. Dim ond tua 6,000 o eiddo sydd wedi'u darparu ers 2021 felly mae cyflawni 20,000 yn debygol o fod yn heriol iawn o ystyried ffactorau dylanwadol eraill."

Gwyddom fod ein darparwyr tai cymdeithasol wedi ymrwymo i ddatgarboneiddio cartrefi presennol, ond bydd angen mwy o gyllid i gyflawni'r uchelgais hwn.

[Amlinellodd ein cipolwg ar y sector 2024](#) mai'r prif flaenoriaethau ar gyfer ymatebwyr oedd cyflenwad cynyddol o gartrefi ynghyd â sicrhau bod gennym gartrefi o ansawdd da. Gwelwyd

hefyd bod mwy o gartrefi'n fesur allweddol wrth fynd i'r afael â digartrefedd yng Nghymru. Yn 2023/24 roedd 13,539 o aelwydydd wedi'u troi allan, sy'n cyfateb i un o bob 100 o aelwydydd yng Nghymru, y lefel uchaf ers 2015. Ym mis Medi 2024 roedd 11,363 o unigolion mewn llety dros dro gan gynnwys 2,874 o blant. Er mwyn i ni sicrhau'n wirioneddol bod digartrefedd yn digwydd yn anaml, ei fod yn fyrhoedlog ac nad yw'n digwydd eto yng Nghymru, mae angen i ni sicrhau bod gennym gyflenwad digonol o gartrefi fforddiadwy. Er bod angen yr £81 miliwn ychwanegol ar gyfer datblygu tai cymdeithasol, nid yw'n cyrraedd y lefel y dywed [Archwilio Cymru](#) y mae ei angen arnom i wneud y targed o 20,000 yn rhan allweddol o'n gwaith o fynd i'r afael â digartrefedd cynyddol yng Nghymru.

Credwn y dylai tai fod yn genhadaeth sylfaenol ar gyfer y llywodraeth gan fod cartref addas, cadarn a fforddiadwy yn gwella canlyniadau iechyd, yn lleihau tlodi ac yn cynyddu gweithgarwch economaidd ar draws Cymru. Mae ein [hymchwil #CefnogirBil](#) ein hunain wedi dangos y bydd darparu cartref diogel, cynaliadwy a fforddiadwy i'w alw'n gartref ar gyfer pawb yng Nghymru'n arbed £11.5 biliwn i'r pwrs cyhoeddus gyda buddsoddiad cychwynnol o £5 biliwn. Man cychwyn y daith honno yw ymgorffori'r 'Hawl i Dai Digonol' yn llawn yng nghyfraith Cymru, er mwyn sicrhau bod cyllidebau'r dyfodol yn adlewyrchu graddfa'r argyfwng tai sy'n ein hwynebu.

Mwy o wybodaeth

Bydd CIH Cymru yn parhau i ymgysylltu â phob plaid wleidyddol ar sut gall y gyllideb hon ymateb i anghenion gweithwyr tai proffesiynol ar draws Cymru. Os hoffech ddarparu eich barn am y gyllideb ddrafft, cysylltwch â [Cerys Clark](#), rheolwr polisi a materion cyhoeddus yn CIH Cymru.

